

# CYNGOR CYMUNED BRYNGWRAN COMMUNITY COUNCIL

COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWDYD NOS FERCHER  
8 IONAWR 2014 AM 7.00 O'R GLOCH YN NEUADD YR YSGOL

## YN BRESENNOL

Cyng I Roberts JP, R G Parry, A Michael, K Humphreys, N Highley, E Huws, N Roberts (Cyngor Sir)

## YMDDIHEURIADAU

Cyng I Rowlands, C LI Thomas, D Rees (Cyngor Sir)

Cadeirydd y cyfarfod gan y Cadeirydd Cyng I Roberts JP. Cynigodd y Cadeirydd croeso i pawb yn cynnwys Mr Neil Summers, Anglesey Computer solutions.

Bydd Mr Summers yn gallu creu wefan i'r Cyngor am £520 (taliad cyntaf) - £300 am creu y wefan, £190 cynnal a chadw am ddwy flynedd a £30 am y domain am dwy flynedd. Bydd y wefan yn ddwyieithog gyda tudalenau cyswllt, cofnodion, linciau ac ymlaen. Penderfynwyd symud ymlaen.

## DATGAN DIDDORDEB

Cyng N Roberts (materion cynllunio)

## DERBYN COFNODION Y CYFARFOD 14 Tachwedd 2013

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod 14 Tachwedd 2013, Cyng K Humphreys yn cynnig a Cyng R G Parry yn eilio.

## MATERION YN CODI O'R COFNODION

**Llwybr Cyhoeddus Lon Bryngwrn Ffarm - Pen Rhiw** - Penderfynwyd cynnal cyfarfod ar y safle pan fydd y tywydd wedi gwella. Bydd y Clerc yn trefnu i'r Cyngor Sir cysylltu a Cyng A Michael

**Wefan** - gweler yr adroddiad uchod.

**ADRODDIAD Y CADEIRYDD**- Dywedodd y Cadeirydd bod blwyddyn yma yn can mlwydd ers dechrau y rhyfel mawr. Yn dilyn sgwrs, penderfynwyd ystyried gwneud rhywbeth ychwanegol i gwasanaeth Sul y Cofio y blwyddyn yma. Cynigodd y Clerc gwneud ymholiadau am grantiau.

## GOHEBIAETH CYNGOR YNYS MON

### Cynllunio

16C169C cais amlinellol gyda mynedfa wedi'w gynnwys ar gyfer codi dau annedd arwahan ynghyd a chreu mynedfa newydd ar dir tu ol i'r hen Swyddfa Bost, Bryngwrn - dim sylwadau.

16C196 Cais llawn ar gyfer codi sied noswyllo gwartheg godro yn Treban Farm, Bryngwrn- dim sylwadau

16C188A cais llawn ar gyfer codi adeilad amaethyddol ar dir gyferbyn a Gronant, Bryngwrn- dim sylwadau

### Priffyrdd

Darllenwyd llythyr gan y Cynngor Sir ynglyn y Coridor yr A5 - Llwybr Cerdded a Beicio (gwybodaeth yn unig)

## GOHEBIAETH YCHWANEGOL

**Twnneli Helyg** - Darllenwyd ebost gan y Cyngor Sir ynglyn a twnneli helyg. Bydd y clerch yn cael mwy o wybodaeth erbyn y cyfarfod nesaf.

LLOFNOD

(Cadeirydd) 12 Chwefror 2014

**Unllais Cymru** - agenda y cyfarfod nesaf 29.01.14. Bydd y Cadeirydd yn mynychu'r cyfarfod.

**Unllais Cymru - Garddwestau Palas Buckingham 2014** - penderfynwyd cynnig enw y Cadeirydd a Mrs Roberts.

### **MATERION ARIANNOL**

Precept 2014/15 - penderfynwyd codi y precept i £8700 - Cyng R G Parry yn cynnig a Cyng K Humphreys yn eilio.

Penderfynwyd talu y canlynnol Cyng N Highley yn cynnig a Cyng R G Parry yn eilio:

J Roberts Archwiliwr £60.00, Rhys Williams (Torri gwair) £1554.50, B Backhouse (symud biniau) £108.00, Eglwys Bryngwran £25 (gweler cofnodion y cyfarfod diwethaf), Clwb yr Henoed £54 (gweler cofnodion 17.10.13 - cytunwyd cynnig rhodd o £50 i'r clwb. Oherwydd bod arian heb cael ei trosglwyddo o'r cyfrif deposit i'r cyfrif siec, penderfynwyd y banc peidio talu y siec. Penderfynwyd ail talu y siec, hefyd costau y clwb £4 am bod y siec heb mynd trwy'r cyfrif).

### **MATERION ERAILL**

Trafodwyd cwyn unwaith eto am baw ci. Penderfynwyd cynnig bagiau baw ci i'r cyhoedd a gofyn i'r Cyngor Sir ystyried glanhau y ffyrdd/palmentydd.

Mae angen gwydr newydd ar y lon wrth ymyl Madog Farm/Refail Newydd - bydd y Clerc yn dod ar mater at sylw y Cyngor Sir.

Mae'r cysgodfannau bws angen ei peintio. Penderfynwyd gofyn i plant y clwb ieuencid gwneud y gwaith ar ol i't tywydd gwella.

LLOFNOD

(Cadeirydd) 12 Chwefror 2014